COFNODION Y CYFARFOD

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 27 Chwefror 2001
**Amser:** 9.00am
**Lleoliad:** Ystafell y Llywydd (A3.13)

**Yn bresennol:** John Marek, y Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Andrew Davies, y Trefnydd
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru
William Graham, Rheolwr Busnes y Blaid Geidwadol
Kirsty Williams, Rheolwr Busnes Plaid y Democratiaid Rhyddfrydol

John Lloyd, Clerc y Cynulliad
David Lambert, Cynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd
Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes
Marion Stapleton, Ysgrifennydd Preifat y Trefnydd
Craig Stephenson, Ysgrifenyddiaeth y Siambr
Alun Gruffudd, Ysgrifennydd Preifat y Dirprwy Lywydd
Marie Knox, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau
Nerys Arch, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol (eitem 4 ar yr agenda drwy gysylltiad fideo)

## 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

1.1 Dim

## 5 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

**BC39-01 (terfynol)**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor yn eu fformat terfynol. Gan nad oedd unrhyw sylwadau pellach, byddent yn cael eu cyfieithu yn barod ar gyfer eu cyhoeddi. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

**BC55-01 (drafft)**

2.2 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor yn eu fformat drafft. Awgrymwyd mân welliant a fyddai'n cael ei gynnwys yn y fersiwn derfynol a'i gyflwyno i'r Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

## 5 Materion sy'n codi

3.1 **Paragraff 3.2-** Gofynnwyd i'r Rheolwyr Busnes gyflwyno sylwadau eu grwpiau ar gynnal eisteddiad ar ddiwrnod yr Etholiad Cyffredinol. Dywedodd Jocelyn Davies yr awgrymodd ei grŵp y dylid cadw at 'fusnes fel arfer', tra bod grwpiau'r Democratiaid Rhyddfrydol a'r Ceidwadwyr yn credu na ddylai'r

Cynulliad eistedd ar y diwrnod hwnnw. Dywedodd y Trefnydd bod Prif Weinidog Cymru wedi ysgrifennu at arweinwyr y pleidiau ynghylch hyn, a'r consenswS oedd y dylid cynnal y Cyfarfod Llawn ar ddiwrnod arall. Byddai Jocelyn Davies yn cyflwyno'r cynnig hwnnw i'w grŵp, a chredodd na ddylai achosi unrhyw broblemau. Cytunwyd y byddai'r mater yn cael ei drafod yn y cyfarfod nesaf. **Gweithredu: Jocelyn Davies i drafod â'i grŵp**

3.2 **Paragraff 3.5 –** Dywedodd y Dirprwy Lywydd ei fod ef a'r Llywydd wedi trafod y materion sy'n ymwneud â gweithdrefnau yn dilyn datganiadau gan y Cabinet. Daethant i'r casgliad mai'r ffordd orau o ddatrys o mater oedd drwy gyfarfod â'r Rheolwyr Busnes. Dywedodd y Dirprwy Lywydd y dylid dosbarthu'r papur a baratowyd gan swyddogion ar gyfer y Llywydd, i'r Rheolwyr Busnes er gwybodaeth, am ei fod yn cynnwys gwybodaeth ffeithiol am y gweithdrefnau hyd yn hyn ac fe allai fod yn fan cychwyn ar gyfer y drafodaeth. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

3.3 **Paragraff 3.4 -** Nodwyd bod Marion Stapleton wedi darparu manylion ar amseriad gorchymyn Rheol Sefydlog 29 Brian Hancock i Jocelyn Davies.

3.4 **Paragraff 4.12 –** Cafwyd gwybodaeth gan Marion Stapleton ynghylch yr is-ddeddfwriaeth a wnaed drwy'r weithdrefn Weithredol. Cytunodd i anfon y rhestr at y Rheolwyr Busnes er gwybodaeth. Nodwyd bod y Rheolwyr Busnes a'r llefarydd perthnasol wedi'u hysbysu drwy gyfrwng E-bost am y gorchmynion oedd yn cael eu gwneud o dan y weithdrefn Weithredol a'r rhesymau dros wneud hynny. Roedd y Dirprwy Lywydd yn fodlon bod y weithdrefn yn rhoi cyfle i'r Aelodau ddadansoddi is-ddeddfwriaeth yn dilyn y weithdrefn Weithredol, a gofynnodd a allai Swyddfa'r Llywydd dderbyn copi o'r hysbysiadau yn y dyfodol. Dywedodd Jocelyn Davies yr hoffai weld teitlau'r gorchmynion sydd ar y gweill, fel y'u nodwyd yn y papur BC54-01 (a gafodd ei ystyried gan y Pwyllgor ar 13 Chwefror). Byddai hyn yn galluogi'r Rheolwyr Busnes I edrych ar ba orchmynion oedd yn dilyn pa weithdrefnau. Byddai'r Trefnydd yn trafod hyn â'i gydweithwyr yn y Cabinet, ac fe drafodir y mater mewn pythefnos neu dair wythnos. **Gweithredu: Y Trefnydd i drafod â'i gydweithwyr yn y Cabinet ac ystyried darparu rhestr i'r Rheolwyr Busnes; Marion Stapleton i anfon rhestr o'r is-ddeddfwriaeth a gymeradwywyd yn ddiweddar a'r is-ddeddfwriaeth sydd ar y gweill, a wnaed drwy gyfrwng y weithdrefn Weithredol.**

3.5 **Paragraff 8.1 –** Nodwyd bod copïau o ddatganiadau'r Cabinet yn cael eu hanfon drwy E-bost at yr Aelodau yn y Siambr erbyn hyn.

3.6 **Paragraff 9.1 –** Nododd y Pwyllgor bod Adroddiad y Pwyllgor Busnes ar ddiwygio Rheol Sefydlog 12 wedi'i osod yn y Swyddfa Gyflwyno yn ystod y gwyliau, a bod y cynnig cysylltiedig wedi'i gyflwyno. Caiff yr eitem ei chynnig yn y Cyfarfod Llawn ar ddydd Iau 1 Mawrth.

**4. Is-ddeddfwriaeth**

**Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Tâl Cosb) (Cymru) 2001**

4.1 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC58-01 a oedd yn darparu cyngor oddi wrth Jane Hutt, Gweinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ar sut i ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon â'r cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft i'r pwyllgor pwnc, a chytunwyd y dylai ddilyn y weithdrefn arferol (yn dilyn cais gan Jocelyn Davies am ddadl ar y gorchymyn drafft).
**Gan hynny, penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen i'r Gorchymyn gael ei gyfeirio at bwyllgor pwnc.**

**Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Taliadau gan Awdurdodau Lleol i Awdurdodau Iechyd) (Swyddogaethau Rhagnodedig) (Cymru) 2001**

4.2 Nododd y Pwyllgor bapur BC59-01 a oedd yn darparu cyngor oddi wrth Jane Hutt, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar sut i ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon â'r cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft i'r pwyllgor pwnc, a chytunwyd y dylai ddilyn y weithdrefn Garlam.
**Gan hynny, penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen i'r Gorchymyn gael ei gyfeirio at bwyllgor pwnc.**

**Rheoliadau Labelu Cig Eidion (Gorfodi) (Cymru) 2001**

4.3 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC60-01 a oedd yn darparu cyngor oddi wrth Jane Hutt, Gweinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ar sut i ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon â'r cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft i'r pwyllgor pwnc, a chytunwyd y dylai ddilyn y weithdrefn arferol (yn dilyn cais gan Jocelyn Davies am ddadl ar y gorchymyn drafft).
**Gan hynny, penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen i'r Gorchymyn gael ei gyfeirio at bwyllgor pwnc.**

**Rheoliadau Tai (Cadw'r Hawl i Brynu) (Diwygio) (Cymru) 2001**

4.4 Nododd y Pwyllgor bapur BC61-01 a oedd yn darparu cyngor oddi wrth Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar sut i ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon â'r cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft i'r pwyllgor pwnc, a chytunwyd y dylai ddilyn y weithdrefn Garlam.
**Gan hynny, penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen i'r Gorchymyn gael ei gyfeirio at bwyllgor pwnc.**

4.5 Yn dilyn ymholiad gan William Graham, cadarnhaodd y Dirprwy Lywydd nad oedd Winston Roddick, y Cwnsler Cyffredinol, yn barod i gyflwyno papur i'r Pwyllgor eto. Nododd bod David Lambert a Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol wrthi'n trafod gweithdrefn bosibl i alluogi'r Llywydd gyflawni ei gyfrifoldebau dros gyhoeddi holl ddeddfwriaeth y Cynulliad na wnaed drwy gyfrwng offeryn statudol.

**5. Cyngor i'r Cynulliad ar weithdrefnau**

5.1 Dim

**6. Pwyllgorau**

6.1 Dim

**7. Busnes sydd ar y gweill**

**Busnes yr wythnos hon**

7.1 Amlinellodd y Trefnydd y busnes a gynigir ar gyfer y Cyfarfod Llawn yr wythnos honno. Roedd yr angen am ddatganiad gan y Cabinet ar argyfwng clwy'r traed a'r genau yn golygu bod rhai eitemau wedi'u symud i'r Cyfarfod Llawn ddydd Iau. Hysbyswyd y Rheolwyr Busnes yr wythnos gynt am y cynigion, a chytunwyd y byddai'r Cadeirydd a Chlerc y Pwyllgor Busnes yn cael eu hysbysu hefyd yn y dyfodol. **Gweithredu: Marion Stapleton**

7.2 Cytunodd Marion Stapleton i ddarparu crynodeb byr i'r Aelodau, yn dilyn pryder Jocelyn Davies nad oedd digon o amser i'r Aelodau ystyried Rheoliadau Taliadau Anarddwys 2001 yr oedd y Gweinidog yn bwriadu'u cynnig yn nes ymlaen y diwrnod hwnnw o dan gynnig trefniadol. **Gweithredu: Marion Stapleton**

7.3 Roedd y Rheolwyr Busnes hefyd yn pryderu am y trefniadau ar gyfer y ddadl ar Strategaeth yr NHS, a oedd yn cael ei hail-gyflwyno ddydd Iau. Yn gyffredinol, credwyd y dylid dilyn y rheolau arferol fel bod yr Aelodau'n cael siarad unwaith yn unig. Dywedodd y Dirprwy Lywydd y bu 7 neu 8 Aelod yn aros am gyfle i siarad yn ystod y ddadl a ohiriwyd. Byddai angen hysbysu'r siaradwyr ychwanegol o fewn y pleidiau gwleidyddol. Dywedodd y byddai o gymorth petai'n gwybod ymlaen llaw pa Aelodau fyddai'n siarad.
**Gweithredu: Rheolwyr Busnes**

7.4 Dywedodd y Trefnydd ei fod newydd dderbyn hysbysiad bod MAFF yn gwneud gorchymyn brys er mwyn atal y cyhoedd rhag defnyddio llwybrau cerdded ar dir fferm. Byddai'r Cynulliad yn gwneud gorchymyn tebyg drwy gyfrwng gweithdrefn Weithredol. Dywedodd y Trefnydd hefyd y byddai Bertie Ahern yn annerch y Cynulliad ar 1 Mawrth, ar ôl y ddadl fer.

7.5 Ystyriodd y Pwyllgor y datganiad busnes drafft (BC62-01).

**<u>Busnes arfaethedig ar gyfer yr wythnosau sy'n dechrau 5, 12 a 19 Mawrth 2001</u>**

7.6 Cyngor y Pwyllgor i'r Trefnydd ar ei ddatganiad arfaethedig ynghylch trefn busnes y Cynulliad ar gyfer yr wythnosau sy'n dechrau 5, 12 a 19 Mawrth oedd y dylai fwrw ymlaen fel yr amlinellwyd yn y datganiad busnes drafft.

7.7 Cynigiwyd ad-drefnu dadl fer Janice Gregory a ohiriwyd ar 20 Mawrth. Gofynnodd y Dirprwy Lywydd a ellid dwyn y ddadl hon ymlaen. **Gweithredu: Y Trefnydd i ystyried**

**<u>8. Materion a gyfeiriwyd o'r cyfarfod llawn</u>**

8.1 Ystyriodd y Pwyllgor bapur BC57-01 – dyfyniad o'r cyfarfod llawn ar 15 Chwefror lle'r oedd William Graham wedi codi pwynt o drefn mewn perthynas â'r gallu i gyflwyno cwestiynau llafar i'r Trefnydd ynghylch ei gyfrifoldebau cyd-drefnu ar gyfer Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu. Dywedodd y Gweinidog bod hwn eisoes yn cael ei ystyried. Cytunwyd y dylai swyddogion baratoi papur i'w ystyried gan y Pwyllgor gan y byddai angen adolygu Rheolau Sefydlog y Cynulliad. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr.**

8.2 Roedd y Trefnydd yn pryderu am amserau'r busnes yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Chwefror. Mynegodd bryderon yn fwyaf arbennig mewn perthynas â'r pwyntiau canlynol:

- Amser yn cael ei wastraffu yn y Cyfarfod Llawn yn ymateb i bwyntiau o drefn a gafodd ymateb llawn yn y Pwyllgor Busnes.
- Roedd y Pwyllgor wedi treulio amser yn trafod amserau posibl ar gyfer pob eitem o fusnes ar y datganiad busnes drafft. Fodd bynnag, nid oedd o'r farn bod Cadeirydd y Cyfarfod Llawn yn cadw at y rhain. Er enghraifft roedd yn anfodlon bod y ddadl ynghylch Tir Mynydd, y trefnwyd 15 munud ar ei chyfer, wedi cael ei gadael i rygnu ymlaen am 30 munud.
- Byddai cadw'n fwy clos at yr amserau a awgrymwyd yn lleihau'r angen i symud cynigion gweithdrefnol i ymestyn sesiynau'r cyfarfod llawn fore dydd Iau.
- Roedd y Pwyllgor Busnes wedi cytuno i ymestyn sesiynau'r cyfarfod llawn ar fore dydd Iau i 1. 30 p.m. pe byddai angen. Nid oedd o help, felly, bod pwyllgorau pwnc yn trefnu cyfarfodydd fyddai'n dechrau cyn 2.00 p.m.

8.3 Roedd y Dirprwy Lywydd yn pryderu bod y ddadl fer wedi cael ei gohirio ar 15 Chwefror ac yn teimlo y dylid diogelu hawliau'r meinciau cefn. Roedd Kirsty Williams o'r farn bod cyngor croes wedi cael ei gynnig i'r cyfarfod llawn gan fod un aelod ar y meinciau cefn wedi colli ei ddadl fer i wneud lle i ddadl ar Corus, tra'r roedd un arall wedi medru gohirio ei dadl hi. Cadarnhaodd y Dirprwy Lywydd y gellid gohirio dadl fer ond na allai gymryd lle dadl fer yr wythnos ganlynol. Dywedodd y byddai'r Cadeirydd bob amser yn talu sylw i'r amserau a awgrymir yn y datganiad busnes drafft, ond y byddai datganiadau Cabinet a phwyntiau o drefn yn symud busnes yn ôl. Roedd yn bwysig cadw cydbwysedd rhwng yr amserau a awgrymir a'r hyblygrwydd i reoli ceisiadau'r Aelodau am gyfle i siarad yn ystod cwestiynau, datganiadau a dadleuon.

8.4  Dywedodd Kirsty Williams fod angen i'r holl Aelodau fod yn fwy disgybledig yn eu hagwedd tuag at fusnes y Cyfarfodydd Llawn.  Dylai aelodau fod yn barod i eistedd yn y Cyfarfod Llawn tan 1.30 p.m. os oedd angen.  Serch hynny, roedd yn achosi rhwystredigaeth os oedd yr hyblygrwydd hwn yn cael ei gwtogi er mwyn medru cynnal cyfarfod pwyllgor a drefnwyd am 1.00 p.m.

8.5 Dywedodd William Graham fod ei grŵp yn fodlon ymestyn busnes yn y naill neu'r llall o'r Cyfarfodydd Llawn wythnosol.  Roedd o'r farn mai rhywbeth i'r Cadeirydd a neb arall oedd mater yr amserau, ac na fu angen datganiad ychwanegol ar Corus yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Chwefror.  Dywedodd y Trefnydd bod y Weinyddiaeth wedi ymrwymo i roi manylion i'r Cynulliad am Corus wrth i'r wybodaeth ddod yn hysbys.  Teimlai bod yr Aelodau yn disgwyl datganiadau fel hyn.

8.6  Roedd Jocelyn Davies yn teimlo ei bod yn annheg i'r Gweinidog feirniadu'r ffordd y cadeiriwyd y Cyfarfod Llawn a grwpiau'r gwrthbleidiau gan fod nifer fawr o Aelodau Llafur wedi cymryd rhan yn y ddadl ar benodiadau cyhoeddus, a hynny ar ôl i'r Trefnydd ofyn i'r pleidiau eraill beidio â chynnig mwy nag un llefarydd.  Roedd y Trefnydd o'r farn ei bod yn afresymol i gadw at y cytundeb a oedd, yn ei farn ef, wedi cael ei dorri gan grŵp y Ceidwadwyr.  Teimlai Jocelyn Davies na ddylid beio grwpiau'r gwrthbleidiau pan oedd busnes Llywodraethu, na chafodd ei drefnu, wedi newid yr agenda.

8.7  I gloi, dywedodd y Dirprwy Lywydd y byddai'r Cadeirydd yn ceisio cadw at yr amserau ond y byddent angen cydweithrediad yr Aelodau a'r hyblygrwydd i ymestyn neu ohirio eitemau lle bo angen.  Gobeithiai y byddai'r Rheolwyr Busnes yn cyfleu'r neges hon i'w grwpiau a gofynnodd i'r pwyllgorau beidio â threfnu cyfarfodydd a oedd yn rhwystro sesiynau'r Cyfarfod Llawn ar ddydd Iau rhag ymestyn i 1.30 p.m.

**9.  Newidiadau i'r Rheolau Sefydlog**

9.1  Dim.

**10. Dyfarniadau'r Llywydd**

10.1  Dim.

**11. Unrhyw fater arall**

11.1  Dywedodd y Dirprwy Lywydd wrth yr Aelodau bod Pwyllgor y Tŷ wedi gosod penderfyniad newydd ar lwfansau Aelodau'r Cynulliad yn y Swyddfa Gyflwyno.  Byddai'n cael ei roi gerbron y Cyfarfod llawn i'w gymeradwyo cyn bo hir.

11.2  Diolchodd y Pwyllgor i John Lloyd, Clerc y Cynulliad am ei gyngor a'i wasanaethau i'r Pwyllgor Busnes a dymunodd yn dda iddo ar ei ymddeoliad.

**YSGRIFENYDDIAETH Y SIAMBR**